**Rhif: WG49130**

Llywodraeth Cymru

# Ymgynghoriad – crynodeb o’r ymatebion

# Cofrestru'n broffesiynol y gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae

Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gofrestru'n broffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae

Mehefin 2024

Mae’r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron 2024 ISBN ddigiol 978-1-83625-221-4

## Trosolwg
Mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad ar gofrestriad proffesiynol y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Hoffem ddiolch i bawb a ymatebodd am rannu eu barn â ni.

## Y camau y mae angen eu cymryd
Dogfen er gwybodaeth yn unig yw hon.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig
Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt
I gael rhagor o wybodaeth:
Is-adran y Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmgynghoriadGofalPlantAGwaithChwarae@llyw.cymru

## Copïau ychwanegol
Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a'r holl ddogfennau ymgynghori wedi'u cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig. Maent ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen i'r ddogfen ymgynghori: Cofrestru'n broffesiynol y gweithlu Gofal Plant a Gwaith Chwarae | LLYW.CYMRU

**Cynnwys**


Cyflwyniad ........ 1

Y cynnig ........ 1

Ymgysylltu ........ 1

Trosolwg o'r ymatebion ........ 1

Crynodeb o'r ymatebion ........ 3

Cwestiwn 1 ........ 3

Cwestiwn 2 ........ 5

Cwestiwn 3 ........ 7

Cwestiwn 4 ........ 11

Cwestiwn 5 ........ 15

Cwestiwn 6 ........ 17

Cwestiwn 7 ........ 18

Cwestiwn 8 ........ 20

Cwestiwn 9 ........ 21

Cwestiwn 10 ........ 21

Casgliad ........ 22

Y camau nesaf ........ 23

Rhestr o'r ymatebwyr ........ 24

## Cyflwyniad

Lansiodd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ymgynghoriad ar gofrestru'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn broffesiynol ar 30 Tachwedd 2023 am gyfnod ymgynghori o 14 wythnos.

Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn y rhai sy'n rheoli neu'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ledled Cymru ar rai cwestiynau sylfaenol ynghylch a ddylai'r sector gofal plant a gwaith chwarae fod â chofrestr o'r gweithlu ac os felly, pwy ddylid eu cynnwys yn y gofrestr honno.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Mawrth 2024. Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Y cynnig

Rhoddodd yr ymatebwyr adborth ar nifer o gwestiynau sylfaenol gan gynnwys a ddylai'r sector gwaith chwarae a gofal plant fod â chofrestr gweithlu ac os felly, pryd y dylai hyn ddigwydd a phwy ddylid eu cynnwys neu na ddylid eu cynnwys mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

## Ymgysylltu

Gwahoddwyd safbwyntiau fel rhan o gyfnod ymgynghori 14 wythnos o hyd rhwng 30 Tachwedd 2023 a 7 Mawrth 2024. Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar dudalennau ymgynghoriadau gwefan Llywodraeth Cymru. Gallai ymatebwyr gyflwyno eu barn a'u sylwadau ar bapur, drwy e-bost neu ar-lein, yn Gymraeg neu yn Saesneg.


Mae ymatebion gan sefydliadau ymbarél gofal plant a gwaith chwarae yn ystyried eu hymgysylltiad â'r sector ac wedi llywio eu hymatebion.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ddau ddigwyddiad ymgysylltu ar 6 a 19 Chwefror i annog y rhai a oedd yn bresennol i ymateb i'r ymgynghoriad ac i ateb unrhyw gwestiynau.


## Trosolwg o'r ymatebion

Cafodd yr ymgynghoriad gyfanswm o 202 o ymatebion, gan gynnwys ymatebion llawn a rhai wedi'u cwblhau yn rhannol. Cyflwynwyd 182 o'r ymatebion hyn drwy'r arolwg ar-lein ac 20 ar e-bost. Mae 136 o'r ymatebwyr yn awyddus i barhau'n ddienw. Gofynnwyd i'r ymatebwyr 'Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?' a 'Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich rôl orau?'. Mae'r graffiau canlynol yn dangos yr ymatebion a dderbyniwyd (gan gynnwys gan rai a allai fod â rôl ddeuol).

Ffigur 1: Pa un o'r canlynol sy'n eich disgrifio orau?




Ffigur 2: Pa un o’r canlynol sy’n disgrifio eich rôl orau?



**Crynodeb o’r ymatebion**

Mae'r adran ganlynol yn nodi manylion yr ymatebion a'r sylwadau a gafwyd mewn perthynas â chwestiynau'r ymgynghoriad.

Gofynnodd **cwestiwn 1** a fyddai cofrestr o'r gweithlu yn cynnig manteision i'r *rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae, cyflogwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae a theuluoedd sy'n defnyddio'r sector gofal plant a gwaith chwarae.*

Gofynnwyd i ymatebwyr hefyd esbonio y byddai cofrestr o fudd i'r grwpiau hyn.

| 1. Byddai cofrestr o'r gweithlu yn cynnig manteision ar gyfer: | Cytuno'n Gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf | Dw i ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| *1.1 Y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae* | 47 **24%** | 55 **28%** | 39 **19%** | 21 **11%** | 32 **16%** | 5 **2%** |
| *1.2 Cyflogwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae* | 56 **28%** | 64 **32%** | 31 **16%** | 17 **9%** | 23 **12%** | 6 **3%** |
| *1.3 Teuluoedd sy'n defnyddio'r sector gofal plant a gwaith chwarae* | 44 **22 %** | 64 **32%** | 43 **22%** | 19 **10%** | 21 **11%** | 6 **3%** |

Cafwyd cyfanswm o 199 o ymatebion i 1.1; 195 i 1.2 a 197 i 1.3.

Roedd dros hanner yr holl ymatebwyr **yn cytuno neu'n cytuno'n gryf** y byddai cofrestr o'r gweithlu yn cynnig manteision i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae (52%) i gyflogwyr (60%) ac i deuluoedd (54%).

Roedd tua chwarter yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf** y byddai'n dod â manteision i'r gweithlu (27%) ac roedd tua un rhan o bump yn teimlo nad oedd unrhyw fanteision i gyflogwyr (21%) na theuluoedd (21%). Ychydig iawn o ymatebwyr **oedd ddim yn siŵr** ac roedd tua un rhan o bump nad oeddent **yn cytuno nac yn anghytuno**.

O'r rhai a **gytunodd neu a gytunwyd yn gryf**, roedd sylwadau ar sut y byddai cofrestr o fudd i bob un o'r grwpiau a restrir yn cynnwys:

<u>Y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae</u>

- Cydnabyddiaeth fel gweithwyr proffesiynol, gan gynnwys gweithwyr chwarae a gwarchodwyr plant;
- Cydraddoldeb â sectorau eraill;
- Codi safonau, gan sicrhau ymddygiad cadarnhaol ac effeithiol;
- Gwell mynediad at gyfleoedd DPP, dilyniant gyrfa a lle i gadw cofnod o'r holl ddysgu a wnaed.

<u>Cyflogwyr yn y sector gofal plant a gwaith chwarae</u>

- Cefnogi cyflogwyr gyda dethol a recriwtio;
- Creu siop un stop gyda mynediad at gymwysterau a chofnodion hyfforddi.

<u>Teuluoedd sy'n defnyddio'r sector gofal plant a gwaith chwarae</u>

- Rhoi mwy o sicrwydd a hyder fod gan staff yr wybodaeth ddiweddaraf am hyfforddiant a chymwysterau perthnasol;
- Mae staff wedi eu cofrestru'n broffesiynol ac felly'n addas i ymarfer a gweithio gyda phlant yng Nghymru;
- Gwella diogelu gyda staff yn gweithio i god ymddygiad;
- Byddai'n annog rhieni i ymddiried yn y system a theimlo mwy o sicrwydd ynghylch y gweithwyr y maent yn gadael eu plant yn eu gofal.

Fodd bynnag, pwysleisiwyd hefyd gan rai ymatebwyr a gytunodd y byddai manteision, yr angen i fynd i'r afael â phryderon gan gynnwys y costau a'r baich ar unigolion/lleoliadau a'r angen am fwy o fanylion ar sut y byddai cofrestr o'r gweithlu yn gweithio'n ymarferol e.e. sut y byddai hyn yn effeithio ar staff heb gymhwyso/sicrhau bod y gofrestr yn hawdd ei defnyddio.

Roedd rhai yn annog pwyll wrth fwrw ymlaen â'r gwaith hwn nawr o ystyried y pwysau y mae'r sector yn eu hwynebu a'r potensial i waethygu heriau recriwtio a chadw.

O'r rhai a oedd **yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf**, roedd sylwadau a wnaed gan ymatebwyr nghylch pam roeddent yn teimlo *na* fyddai cofrestr o fudd i'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae neu gyflogwyr, yn cynnwys:

- Gallai gyfrannu ymhellach at yr argyfwng recriwtio a chadw;
- Effaith negyddol ar recriwtio ar gyfer rolau rhan-amser, yn enwedig gweithwyr chwarae;

- Pwysau ariannol ychwanegol ar unigolion;
- Cynnydd yn y llwyth gwaith gweinyddol yn enwedig os bydd yn ofynnol i gadw cofrestrau lluosog yn gyfredol;
- Mae gwiriadau'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ac Arolygiaeth Gofal Cymru eisoes ar waith; haen ychwanegol o fiwrocratiaeth a chost am fawr o fudd diriaethol;
- Cofrestru deuol; mae rhai staff eisoes yn talu i fod yn rhan o gofrestr arall.

O ran teuluoedd, roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Ni fyddai cael cofrestr yn effeithio ar y penderfyniad ar ddefnyddio gofal plant;
- Byddai darllen adroddiad arolygu AGC o fwy o fudd i deuluoedd na chofrestr staff.

O'r ymatebwyr hynny **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno,** roedd sylwadau yn tynnu sylw at faich ariannol ffioedd cofrestru; yr angen i sicrhau bod barn gweithwyr chwarae mynediad agored yn cael ei chlywed; a byddai'r manteision ar gyfer pob grŵp a restrir yn dibynnu ar ba wybodaeth y byddai'r gofrestr yn ei chynnwys. Nodwyd hefyd efallai na fydd dull "un maint i bawb" yn addas i bawb e.e. mae gwarchodwyr plant eisoes wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru. Roedd rhai hefyd yn teimlo bod digon o fesurau diogelu a gwiriadau eisoes ar waith ac y byddai mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog yn y gweithlu yn fwy o flaenoriaeth.

I'r rhai **nad oeddent yn siŵr**, roedd sylwadau'n cynnwys yr angen am ragor o wybodaeth i ddarparu ymateb mwy gwybodus e.e. am y broses addasrwydd i ymarfer. Tynnwyd sylw hefyd at y ffaith fod statws y sector fel un â chyflogau isel yn groes i'r cynnig i'w gydnabod fel proffesiwn.

Gofynnodd **cwestiwn 2** a ddylai ymuno â chofrestr o'r gweithlu fod yn orfodol i'r rhai sy'n gymwys. Gwahoddwyd ymatebwyr hefyd i rannu'r rhesymeg dros eu hymateb.

| 2. Dylai ymuno â chofrestr o'r gweithlu fod yn **orfodol** i'r rhai sy'n gymwys. | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Dw i ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 44<br>**22%** | 54<br>**27%** | 35<br>**18%** | 22<br>**11%** | 38<br>**19%** | 5<br>**2%** |

Cafwyd cyfanswm o 198 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llai na hanner (49%) yn **cytuno neu'n cytuno'n gryf** y dylai ymuno â chofrestr o'r gweithlu fod yn orfodol, gyda 30% yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf**. Ychydig iawn (2%) oedd **ddim yn siŵr** ac roedd llai na un rhan o bump (18%) **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno**.

Gofynnwyd i’r ymatebwyr egluro eu hateb hefyd. O'r rhai a oedd yn **cytunodd neu'n cytuno'n gryf**, roedd eu rhesymau'n cynnwys:

- Sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau a thryloywder;
- Darparu rhagor o gyfleoedd i wella ymarfer yn barhaus;
- Y byddai ymuno yn mynd yn docynistaidd os nad yw'r gofrestr yn orfodol;
- Sicrhau rhestr gynhwysfawr o'r rhai sy'n gweithio yn y sector yng Nghymru;
- Byddai'n fesur diogelu ychwanegol;
- Byddai'n helpu gwaith chwarae i gael ei ystyried yn broffesiwn yn hytrach na swydd y mae pobl yn pasio drwyddi;
- Ni fyddai pobl yn cofrestru fel arall.

Dywedodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs y byddai'n sicrhau "c*ysondeb a disgwyliadau/dulliau gweithredu cyson, o'r Blynyddoedd Cynnar i Addysg, i Waith Ieuenctid bod gwasanaethau'n cael ei darparu gan weithlu cofrestredig a phroffesiynol."*

Cytunodd Gofal Cymdeithasol Cymru **yn gryf** y dylai'r gofrestr o'r gweithlu fod yn orfodol gan grybwyll y gallai natur cofrestr wirfoddol fod yn broblemus ac aneffeithiol. Cytunodd Cyngor y Gweithlu Addysg hefyd y dylai ymuno â'r gofrestr fod yn orfodol i ymarferwyr perthnasol os yw'n cael ei chyflwyno.

Fodd bynnag, roedd 13 o ymatebwyr a oedd yn **cytuno neu'n cytuno'n gryf** y dylai cofrestru fod yn orfodol i'r sawl sy'n gymwys, hefyd yn teimlo y dylid ystyried y canlynol:

- Dylid cynnwys yr <u>holl staff</u> ar y gofrestr;
- Dylai'r unigolyn fod â'r hawl i benderfynu a yw'n dymuno talu'r ffioedd cofrestru ai peidio;
- Dylid ystyried ffioedd cofrestru ar raddfa wedi'i seilio ar incwm neu ostyngiad mewn ffioedd/neu eu bod yn ddi-dâl os yw unigolyn eisoes yn talu i fod yn rhan o gofrestr arall;
- Dylid cyflwyno'r gofrestr i'r sector dros gyfnod o amser/yn raddol gyda dyddiad terfyn y cytunwyd arno erbyn pryd y dylai pawb fod wedi'u cofrestru;
- Ar gyfer sefydliadau llai ac unig weithwyr, h.y. gwarchodwyr plant, gall ffioedd ac unrhyw waith ychwanegol beri rhwystr;
- Dylid archwilio sut y gallai'r systemau/cronfeydd data presennol helpu i osgoi creu baich gweinyddol ychwanegol;
- Dylid ystyried esemptiad ar gyfer cynlluniau chwarae dros dro, lle mae pobl yn cael eu cyflogi am gyfnod byr yn unig (fel gwyliau ysgol);
- Gellid ystyried cofrestru gwirfoddol ar gyfer grwpiau penodol.

Cytunodd yr undeb llafur Cymunedol y dylai cofrestr o'r gweithlu fod yn orfodol ond pwysleisiodd mai'r rhwystr mwyaf i hyn fyddai cost, yn enwedig o ystyried cyflog isel y gweithlu.

O'r rhai a oedd **yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf**, roedd sylwadau ymatebwyr ynghylch pam eu bod yn teimlo na ddylai cofrestru fod yn orfodol i'r rhai sy'n gymwys yn cynnwys y canlynol:

- Effaith negyddol ar weithwyr ar adeg pan fo recriwtio a chadw staff yn broblem;
- Cyflogau isel o fewn y sector a'r goblygiadau ychwanegol o ran cost, yn enwedig i'r rhai sy'n gweithio'n rhan-amser, sydd â chontractau dim oriau/oriau isel neu rolau deuol;
- Baich ychwanegol nad oes ei angen nes bod y sector yn cael ei ariannu'n 'briodol';
- Os ydych eisoes wedi cofrestru gyda AGC ni ddylai fod angen cofrestru yn unrhyw fan arall - methu â gweld gwerth cofrestr o'r gweithlu;
- Dylai fod cymhellion i'r rhai sy'n dewis cofrestru;
- Pryderon ynghylch diogelu data a phwy fyddai'n gallu cael mynediad at y gofrestr.

Roedd Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt yn **anghytuno'n gryf** gan ddweud y byddai goblygiadau negyddol i gofrestru gorfodol mewn perthynas â darpariaeth gwaith chwarae tymhorol a reoleiddir.

O'r ymatebwyr hynny **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno,** tynnodd sylwadau sylw at amseriad hyn, yng nghanol argyfwng costau byw; goblygiadau cost a'r angen i gydnabod statws cyflog isel y gweithlu, gyda'r rheolwyr yn ennill fawr ddim mwy na'r staff; mater cofrestru deuol; problemau recriwtio a chadw presennol - yn arbennig felly recriwtio staff ar gyfer cynlluniau tymor byr/gwyliau ysgol, yn enwedig pe byddai ffioedd yr un faint ag i'r rhai sy'n gweithio gydol y flwyddyn.

Awgrymodd un ymatebydd y dylid cael rhenciau o opsiynau cofrestru / cyfraddau disgownt ar gyfer staff dros dro. Nododd ymatebydd arall y gellid sicrhau statws uwch drwy wella cyflogau.  Nodwyd hefyd bod angen gwybodaeth fanylach er mwyn gallu dod i benderfyniad.

O ran y rhai **nad oeddent yn siŵr**, holodd un ymatebydd a ddylid cynnwys yr holl staff a gynigiwyd i fod yn rhan o gofrestr y gweithlu e.e. gwarchodwyr plant a gofynnodd un arall a fyddai codi'r cyflog yn gwella statws yn well na chofrestr broffesiynol.

Gofynnodd **cwestiwn 3** am farn ynghylch a **DDYLID** cynnwys y rhai a restrir yn 3.1-3.3 mewn cofrestr o'gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

| 3. **DYLID** cynnwys y canlynol mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Dw i ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 3.1 Yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | 69 **35%** | 55 **32 %** | 24 **12%** | 16 **8%** | 29 **15%** | 5 **2%** |
| 3.2 Yr holl staff mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | 65 **33%** | 59 **30%** | 27 **14%** | 14 **7%** | 31 **16%** | 2 **1%** |
| 3.3 Yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwyr plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant | 69 **35%** | 49 **25%** | 25 **13%** | 16 **8%** | 30 **15%** | 6 **3%** |

Cafwyd cyfanswm o 198 o ymatebion i 3.1 a 3.2 a 195 i 3.3.

Roedd dros hanner (67%) yr holl ymatebwyr yn **cytuno'n gryf neu'n cytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn cofrestr o'r gweithlu. Roedd canlyniadau tebyg ar gyfer 3.2 (staff mewn lleoliadau gwaith chwarae) a 3.3 (staff mewn lleoliadau gwarchodwyr plant) gyda 63% a 60% yn y drefn honno yn nodi eu bod yn **cytuno'n gryf neu'n cytuno**.

Roedd 11 o bob 19 o ymatebwyr sy'n ymarferwyr gofal plant yn **cytuno'n gryf neu'n cytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig mewn cofrestr o'r gweithlu.

Roedd 14 allan o 33 o ymatebwyr sy'n ymarferwyr gwaith chwarae **yn cytuno'n gryf neu'n cytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gwaith chwarae

cofrestredig gydag un ymatebydd yn nodi *"y bydd yn helpu gwaith chwarae i gael ei ystyried yn broffesiwn nid swydd rydych yn pasio drwyddi".*

Roedd pedwar o bob 13 ymatebydd sy'n warchodwr plant **yn cytuno'n gryf neu'n cytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwr plant cofrestredig.

Roedd y sylwadau yn cytuno â chynnwys yr holl staff mewn lleoliadau cofrestredig gofal plant gwaith chwarae a gwarchodwr plant mewn cofrestr o'r gweithlu yn cynnwys y canlynol:

- Darparu a chynyddu cysondeb;
- Proffesiynoldeb a gwell canfyddiad o'r gweithlu a gwell statws iddynt;
- Darparu cydraddoldeb rhwng rolau;
- Rhoi sicrwydd i'r rhai sy'n defnyddio gwasanaethau a'r cyhoedd yn ehangach;
- Cyfleoedd ar gyfer DPP.

Cytunodd Estyn y dylid cynnwys y cyfan gan nodi bod hyn *"yn debygol o gynyddu cysondeb i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y sector ac asiantaethau cymorth sy'n gweithio ochr yn ochr â lleoliadau a gwasanaethau i ddatblygu'r gweithlu mewn ffordd fwy strategol ac effeithiol."*

Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr a **gytunodd neu a gytunodd yn gryf** wedi crybwyll y pryderon canlynol:

- Gwaethygu problemau recriwtio a chadw staff yn enwedig o ystyried unrhyw ofynion am gofrestru deuol;
- Costau cofrestru o ystyried statws cyflog isel y gweithlu;
- Yr angen am ragor o wybodaeth/ymgynghori ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio'n ymarferol;
- Dylai <u>pob aelod o staff</u> gael y cyfle i fod yn rhan o gofrestr broffesiynol i sicrhau dull gweithredu cyson;
- Ar yr amod nad yw cofrestru'n orfodol.

Cytunodd yr undeb llafur Community y dylid cynnwys pawb a restrir uchod mewn cofrestr gofal plant a gwaith chwarae *"gyda'r strwythur cywir o ran ffioedd a thâl ar waith."*

Roedd llai na chwarter (23%) o'r holl ymatebwyr yn **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n uniongyrchol gyda phlant mewn cofrestr o'r gweithlu. Roedd hyn yn union yr un canlyniad ag i rannau 3.2 (staff mewn lleoliadau gwaith chwarae) a 3.3 (staff mewn lleoliadau gwarchodwyr plant) gyda 23% hefyd yn dweud eu bod yn **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno**.

Roedd wyth o bob 19 o' ymatebwyr sy'n ymarferwyr gofal plant yn **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant cofrestredig mewn cofrestr o'r gweithlu.

Roedd 11 allan o 33 o'r ymatebwyr sy'n ymarferwyr gwaith chwarae yn **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno** y dylid cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig mewn cofrestr o'r gweithlu.

Roedd saith o bob 13 o'r ymatebwyr sy'n warchodwyr plant yn **anghytuno'n gryf neu'n anghytuno.**

Roedd sylwadau yn erbyn cynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gofal plant/gwaith chwarae a gwarchodwr plant cofrestredig mewn cofrestr o'r gweithlu yn cynnwys y canlynol:

- Diffyg manteision i'w gweld dros y gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a gwahardd ac Arolygiaeth Gofal Cymru sydd eisoes ar waith;
- Goblygiadau ariannol mewn perthynas â chynaliadwyedd ac fel rhwystr i recriwtio a chadw staff, yn enwedig o ystyried cyflogau isel y gweithlu;
- Amseriad y cynnig o ystyried y pwysau sy'n wynebu'r sector ar hyn o bryd;
- Gwaith papur ychwanegol a chostau blynyddol;
- Nid yw'n cynnig unrhyw fudd i'r gweithlu gwaith chwarae a byddai'n cosbi darpariaeth gwaith chwarae cofrestredig;
- Dim manteision i warchodwyr plant sydd eisoes wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru;
- Fel ymarferydd gofal plant, ni fydd yn darparu mwy o fanteision na'r hyn sydd gennym ar waith nawr.

Tynnodd sylwadau'r ymatebwyr hynny **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno** sylw at y canlynol dylai pob gweithiwr orfod cofrestru i sicrhau cysondeb ar draws y sector ond ni fyddai codi tâl am hyn yn briodol ar hyn o bryd.

Mewn perthynas â chynnwys staff mewn lleoliadau gwaith chwarae cofrestredig, mynegodd Chwarae Cymru bryder bod gan adolygiadau'r Gorchymyn Safonau Gofynnol Cenedlaethol ac Eithriadau oblygiadau a allent weld cynnydd mewn gweithwyr chwarae mynediad agored a chofrestru gorfodol ar gyfer y rhai sydd ar gontractau tymhorol tymor byr. Roeddent yn teimlo bod angen mynd i'r afael â hyn yn gyntaf. Dywedodd tri o bob saith ymatebydd sy'n ymarferwyr gwaith chwarae nad oeddent yn **cytuno nac yn anghytuno** y gallent weld manteision ond bod ganddynt bryderon ynghylch ffioedd a'r "*gostyngiad mewn darpariaeth mynediad agored ac yn argaeledd staff hyfforddedig".*

Roedd un ymarferydd gwaith chwarae na ddarparodd ateb i' cwestiwn hwn.

Dywedodd un o'r ddau ymatebwr sy'n warchodwyr plant ac **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno** â chynnwys yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwr plant cofrestredig**,** mai'r unig fantais fyddai cael eu cydnabod fel darparwyr gofal plant proffesiynol, serch hynny roeddent yn teimlo, yn hytrach na chreu cofrestr o'r gweithlu, y gellid ychwanegu rhywbeth at adroddiad arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru, i'w ddangos i deuluoedd bod gwarchodwyr plant yn "*ddarparwyr gofal plant proffesiynol"*

Doedd PACEY Cymru **ddim yn siŵr** a ddylid cynnwys mewn cofrestr yr holl staff mewn lleoliadau gwarchodwr plant cofrestredig sy'n cael eu talu i weithio'n

uniongyrchol gyda phlant mewn cofrestr o'r gweithlu gan eu bod wedi darganfod wrth ymgysylltu bod mwy o gefnogaeth i'r syniad o gynnwys cynorthwywyr gwarchodwyr plant nad ydynt wedi'u cofrestru ag AGC ar hyn o bryd. Pwysleisiodd PACEY pe bai cofrestr o'r gweithlu yn cael ei chyflwyno, y byddai angen ystyried y broses/dull gweithredu yn ofalus. Roeddent yn galw hefyd am i systemau "*gysylltu mewn rhyw ffordd er mwyn sicrhau cysondeb ac i leihau'r ailadrodd i'r gwarchodwr plant a'r cynorthwyydd."* ac y dylai cyflwyno cofrestr o'r gweithlu ystyried *"anghenion penodol gwarchodwyr plant a'u sefyllfa reoleiddiol" ac "na ddylai greu baich ychwanegol i warchodwyr plant sy'n gweithio ar eu pen ei hunain."* Hefyd, dywedodd PACEY drachefn y byddai angen ystyried costau ac amseru o ran eu cynnwys yn ofalus - pe bai cofrestr o'r gweithlu'n cael ei sefydlu, roeddent yn teimlo y dylai gwarchodwyr plant fod yn rhan o gam gweithredu diweddarach.

Roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru chwaith **ddim yn siŵr** pa fanteision pellach y gallai cofrestr o'r gweithlu eu cynnig a galwodd am "*gyfleu'r gwahaniaeth rhwng cofrestr darparwyr AGC a chofrestr ymarferwyr yn eglur."*

Gofynnodd **cwestiwn 4** p'un a **DDYLID PEIDIO** â chynnwys y rhai a restrir yn 4.1 - 4.6 mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae?

| 4. **NI DDYLAI'R** canlynol gael eu cynnwys mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae | Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf | Dw i ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 4.1 Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae heb eu cofrestru | 23 **12%** | 22 **11%** | 43 **22%** | 42 **21%** | 50 **25%** | 16 **8%** |
| 4.2 Gwirfoddolwyr | 36 **18%** | 50 **25%** | 42 **21%** | 32 **16%** | 22 **11%** | 15 **8%** |
| 4.3 Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant | 34 **30%** | 39 **20%** | 37 **19%** | 44 **22%** | 33 **17%** | 9 **4%** |
| 4.4 Myfyrwyr sy'n gweithio'n wirfoddol mewn lleoliad gofal plant neu waith chwarae cofrestredig | 37 **19%** | 61 **31%** | 37 **19%** | 31 **16%** | 16 **8%** | 14 **7%** |
| 4.5 Staff, fel glanhawyr, sy'n | | 68 | 33 | 25 | 16 | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig ond nad ydynt mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant | 43<br>**22%** | **35%** | **17%** | **13%** | **8%** | 9<br>**5%** |
| 4.6 Nanis | 17<br>**9%** | 26<br>**14%** | 35<br>**18%** | 54<br>**28%** | 41<br>**21%** | 17<br>**9%** |

Cafwyd cyfanswm o 196 o ymatebion i 4.1, 197 i 4.2, 196 i 4.3 a 4.4, 194 i 4.5 a 190 i 4.6.

Roedd hanner (50%) yr holl ymatebwyr **yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na ddylid** cynnwys myfyrwyr, personau cofrestredig / unigolion cyfrifol mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae.

Roedd dros hanner (57%) yn **cytuno neu'n cytuno'n gryf** na ddylid cynnwys staff fel glanhawyr ac **na ddylid** cynnwys staff fel glanhawyr ac roedd ychydig llai na'u hanner (43%) yn **cytuno neu'n cytuno'n gryf na ddylid** cynnwys gwirfoddolwyr.

Fodd bynnag, dim ond 23% o'r ymatebwyr **oedd yn cytuno neu'n cytuno'n gryf na ddylid** cynnwys nanis a staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae nad ydynt wedi'u cofrestru.

Er bod Mudiad Meithrin **yn cytuno** na ddylid cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig, fe wnaethant bwysleisio'r angen i gael cofnod o'r gweithlu mewn lleoliadau anghofrestredig, gan nad oes dull o reoleiddio'r darpariaethau hynny ar hyn o bryd.

<u>Nanis</u>

Roedd bron i hanner (49%) yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na ddylid** cynnwys nanis mewn cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Roedd eu rhesymau'n cynnwys:

- Dylai unrhyw un sy'n gweithio gyda phlant yn enwedig rhai sy'n gweithio ar eu pen eu hunain fel gwarchodwyr plant a nanis gael eu cynnwys;
- Byddai cofrestr yn rhoi sicrwydd bod gan nanis gymwysterau addas a byddai'n gwella data ar faint sy'n gweithio fel nanis;
- Dylid cynnwys nanis sydd wedi'u cofrestru fel rhan o'r Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref.

Galwodd undeb llafur Community am *"well cydnabyddiaeth, a chofrestru nanis fel rhan benodol o'r gweithlu."*

Cydnabu PACEY Cymru y byddai *"realiti ac ymarferoldeb"* gorfodi cofrestru mandadol ar y gweithlu nanis *"yn heriol"* a gwnaethant gynnig dewisiadau eraill

posibl fel cofrestru gwirfoddol, neu wneud cofrestru proffesiynol yn ofyniad ar gyfer Cynllun Cymeradwyo Darparwyr Gofal Plant yn y Cartref (Cymru). Roedd Cyngor Bro Morgannwg o'r un farn.

O ran y rhai **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno**, cynigiodd ystyried cofrestru gwirfoddol ar gyfer rhai rhannau o'r gweithlu gan rai.

Dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy **nad oedden nhw'n siŵr** a ddylid cynnwys nanis a gwnaethant awgrymu y gallai nanis gael y cyfle i ymuno os ydyn nhw'n bodloni meini prawf priodol.  Dywedodd un arall y dylai'r opsiwn i gofrestru fod ar gael i bawb sy'n dymuno ymuno.

**Ni chafwyd unrhyw ymateb i'r ymgynghoriad oddi wrth nani.**

<u>Staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae heb eu cofrestru</u>

Roedd 46% yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf** y **dylid peidio** â chynnwys staff sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae anghofrestredig. Roedd eu rhesymeg yn cynnwys:

- Dylid cynnwys yr holl staff p'un a yw'r lleoliad wedi'i gofrestru neu'n anghofrestredig gan ei bod yn gofrestr o'r <u>gweithlu;</u>
- Byddai cynnwys staff sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig yn darparu cydraddoldeb, cysondeb a theimlad o degwch;
- Mae gan lawer o weithwyr mewn lleoliadau anghofrestredig gymhwyster gofynnol i weithio yn y sector eisoes ac felly dylent allu bod yn rhan o weithlu cofrestredig proffesiynol;
- Ni ellir anwybyddu lleoliadau anghofrestredig oherwydd y ddarpariaeth gymunedol werthfawr a'r fforddiadwyedd y maen nhw'n ei gynnig i rieni.

Dadleuodd Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs o blaid cynnwys y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig: **"***Ar hyn o bryd mae 171 o leoliadau heb eu cofrestru yn cynnig Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol yng Nghymru, gan gyflogi tua 483 o weithwyr chwarae. Byddai peidio â'u cynnwys a chydnabod eu proffesiynoldeb yn eu difreinio".*

Roedd Cyngor Sir Caerfyrddin yn teimlo y dylai *"gweithwyr gael yr un gwerth a phwysigrwydd â'r rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau cofrestredig",* a mynegodd Cyngor Sir y Fflint eu pryder y *"bydden nhw'n cael eu cau allan achos does dim dull rheoleiddio ar eu cyfer ar hyn o bryd".*

O'r rhai **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno,** cwestiynodd Chwarae Cymru'r ffocws ar leoliadau cofrestredig pan fyddai hyn yn gadael rhan sylweddol o'r gweithlu allan o gwmpas y gofrestr. Gwnaethant alw am edrych eto ar y rhesymeg dros beidio â chynnwys y rhai mewn lleoliadau anghofrestredig pe bai cofrestr o'r gweithlu yn cael ei chyflwyno ar gyfer gweithwyr chwarae mewn lleoliadau cofrestredig. Awgrymwyd cofrestru gwirfoddol ar gyfer rhai rhannau o'r gweithlu hefyd.  Tynnodd NDNA Cymru sylw at bwysigrwydd cynnwys yr holl staff (cofrestredig a heb

gofrestru) er mwyn ond roedd yn cydnabod pa mor anodd y byddai gorfodi cofrestru mandadol i'r gweithlu o ran y rhai sy'n gweithio mewn lleoliadau anghofrestredig.

Doedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr **ddim yn siŵr** a gwnaethant ofyn a allai hyn arwain at rai yn dewis aros yn anghofrestredig er mwyn osgoi costau cofrestru.

<u>Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol nad ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant</u>

Roedd ychydig dros draean (39%) o'r ymatebwyr yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf** na **ddylid** cynnwys Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol mewn cofrestr o'r gweithlu. Datganwyd mewn sylwadau y dylid cynnwys Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol p'un a ydynt yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant ai peidio, gan eu bod yn atebol am gynnal ansawdd a diogelwch a sicrhau bod y lleoliad yn cydymffurfio â'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (NMS) a gofynion AGC. Gan fod Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol yn ymwneud â gofal plant mewn capasiti proffesiynol, rhesymodd yr NDNA y dylid eu cynnwys o fewn cofrestr o'r gweithlu.

Crybwyllodd un ymatebydd oedd wedi ateb **ddim yn siŵr** y posibilrwydd o ymgymryd â gwaith i wahaniaethu rhwng y rhai oedd yn cael bod mewn lleoliad ac eraill a allai fod yn rhan o ddarpariaeth sy'n cael ei rhedeg gan bwyllgor. Galwodd Arolygiaeth Gofal Cymru am eglurder o ran yr hyn y mae peidio â gweithio'n uniongyrchol gyda phlant yn ei olygu oherwydd bod mwy o amrywiaethau cynnil yn sefyllfaoedd rhai Personau Cofrestredig / Unigolion Cyfrifol nac eraill.

<u>Gwirfoddolwyr</u>

Roedd dros chwarter (27%) o'r ymatebwyr yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na ddylid** cynnwys gwirfoddolwyr. Dywedodd un y dylai gwirfoddolwyr gael eu cofrestru gan fod ganddynt fynediad uniongyrchol at blant.

Fodd bynnag, dywedodd y rhai **nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno** y byddai'n dibynnu ar eu rôl. Dywedwyd hefyd na fyddai unrhyw gymwysterau gan wirfoddolwyr fel arfer, felly hyd nes y byddai ganddynt gymhwyster a'u bod yn cael eu talu i weithio, ni ddylid eu cynnwys. Roedd un ymatebydd yn meddwl tybed a ddylid cynnwys y rhai a oedd wedi bod yn gweithio tuag at gymhwyster ,gan y gallai eu helpu i sicrhau cyflogaeth yn y dyfodol.

O'r rhai oedd **ddim yn siŵr,** roedd un ymatebydd yn teimlo y dylent gael eu cynnwys o safbwynt DPP a dilyniant ond roedd yn cydnabod y goblygiadau o ran cost i'r unigolyn. Dywedodd ymatebydd arall y byddai hyn yn atal pobl rhag gwirfoddoli ac y byddai sgiliau gwerthfawr yn cael eu colli o ganlyniad.

<u>Myfyrwyr sy'n gweithio'n wirfoddol mewn lleoliad gofal plant neu waith chwarae cofrestredig</u>

Roedd bron i chwarter (24%) o'r ymatebwyr yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na ddylid** cynnwys myfyrwyr. Dywedodd un ymatebydd y dylai myfyrwyr gael eu cofrestru gan fod ganddynt fynediad uniongyrchol at y plant.

Dywedodd un person **nad oedd yn cytuno neu'n anghytuno** na ddylai fod angen i fyfyrwyr dalu i fod ar y gofrestr hyd nes y bydd ganddynt gymhwyster a'u bod yn cael cyflog.

O'r rhai oedd **ddim yn siŵr** roedd sylwadau'n crybwyll y posibilrwydd o sefyllfa lle'r oedd myfyriwr ar leoliad tymor byr ac nad oedd wedi penderfynu eto p'un a i ymuno i â'r gweithlu ai peidio.

Doedd Cyngor y Gweithlu Addysg **ddim yn siŵr** a ddylid cynnwys myfyrwyr gan ddisgrifio gwahanol ofynion ganddynt fel corff rheoleiddio gan wahanol grwpiau o fyfyrwyr wrth iddynt gofrestru.

<u>Staff, fel glanhawyr, sy'n gweithio mewn lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae cofrestredig ond nad ydynt mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant</u>

Roedd 21% o'r ymatebwyr yn **anghytuno neu'n anghytuno'n gryf na ddylid** cynnwys staff fel glanhawyr. Roedd un ymatebydd yn teimlo y dylid eu cynnwys gan fod glanhawyr a chogyddion yn cael cyswllt â'r plant.

O'r rhai oedd **ddim yn siŵr** dywedodd un ymatebydd ei bod yn anodd diffinio'r rhai nad oeddent mewn cysylltiad uniongyrchol â phlant gan nodi y gellid cynnwys rhai oherwydd efallai y gallent gael eu cynnwys mewn cymarebau staff i blant.

Gofynnodd **cwestiwn 5** a ddylai Cymru gael cofrestr o'r gweithlu.

| 5. A ddylai cofrestr gofal plant a gwaith chwarae gael ei sefydlu yng Nghymru? Esboniwch eich ateb. | Dylai | Na ddylai | Dwi ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|
| | 91 **(46%)** | 57 **(29%)** | 49 **(25%)** |

Cafwyd 198 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd llai na hanner (46%) yr ymatebwyr yn **cytuno** y dylid sefydlu cofrestr gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru. Roedd dros chwarter (29%) o'r ymatebwyr yn **anghytuno** y dylid sefydlu cofrestr gofal plant a gwaith chwarae, gyda chwarter (25%) **ddim yn siwr**.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd esbonio'r rhesymau dros eu hymateb. O'r rhai a ddywedodd **dylai**, roedd eu rhesymau dros gefnogi sefydlu cofrestr gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Er mwyn cefnogi hyrwyddo gofal plant a gwaith chwarae fel gyrfa;
- Darparu tebygrwydd a chydraddoldeb rhwng rolau yn y sector;
- Codi'r proffil a barn y cyhoedd am bwysigrwydd y rôl ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol;
- Cael system debyg i system gofrestru Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) a ddefnyddir ar gyfer addysg yng Nghymru ar hyn o bryd.

Roedd Mudiad Meithrin yn teimlo bod y sector gofal plant a gwaith chwarae yn unigryw gyda'r gofrestr *"yn gyfle i ddathlu a chydnabod y llu o sgiliau, profiad ac arbenigedd sydd o fewn y sector".*

Fodd bynnag, dywedodd pum ymatebydd a gytunodd mewn egwyddor gyda sefydlu cofrestr gofal plant a gwaith chwarae fel a ganlyn:

- Ni ddylai hyn fod ar gost staff gofal plant a gwaith chwarae;
- Dylai cofrestr fod yn rhad ac am ddim a dylai cyflogau gynyddu;
- P'un a ellid gwario'r arian a fyddai ei angen i ddatblygu cofrestr i gadw darparwyr gofal plant yn gynaliadwy.

Er bod Clybiau Plant Cymru Kids' Club yn cefnogi'r egwyddor o gofrestr o'r gweithlu, maen nhw'n teimlo y dylai hefyd *"gynnwys darparwyr gofal plant a gwaith chwarae nad ydynt wedi'u cofrestru."*

Ymhlith y 25% oedd **ddim yn siŵr** a ddylid sefydlu cofrestr o'r gweithlu, roedd galw am ragor o fanylion ar yr hyn y byddai cofrestr gweithlu yn ei olygu cyn y gallent gyrraedd barn bendant.

Crybwyllwyd pryderon gan gynnwys costau; cyflogau presennol, cyflogau isel a chyflogaeth ansefydlog; yr argyfwng costau byw; amseriad y cynnig; heriau recriwtio a chadw staff; goblygiadau adolygiadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r Gorchymyn Eithriadau; y rhai sy'n gweithio mewn darpariaeth anghofrestredig; yr effaith bosibl ar leoliadau gwaith chwarae mynediad agored; cofrestru gorfodol ar gyfer y rhai ar ddim oriau/contractau tymor byr/tymhorol; cofrestru deuol a'r cysylltiad rhwng cofrestrau a chodau ymddygiad.

Roedd Chwarae Cymru yn teimlo ei bod yn ymddangos bod y pryderon yr oeddent wedi'u hamlinellu "*yn drech na'r manteision"* ac y byddai angen mynd i'r afael â'r rhain i gefnogi penderfyniad mwy gwybodus ar gyfer y sector.

Dywedodd NDNA bod *"y sector dan ddigon o bwysau a straen fel y mae"* ac y *gallai "cyllid gan Lywodraeth Cymru gael ei ddefnyddio'n well ar gyfer cefnogi'r sector".* Nodwyd hefyd bod *"llawer a oedd o blaid y gofrestr yn datgan bod eu barn yn ddibynnol ar Lywodraeth Cymru yn ariannu cost cofrestru".*

Dywedodd PACEY Cymru hefyd bod hyn yn digwydd ar *"amser heriol i'r sector".* Gan gydnabod y gostyngiad yn nifer y gwarchodwyr plant, dywedwyd ganddynt fod *"angen sicrhau nad yw unrhyw newidiadau sy'n cael eu gwneud yn ansefydlogi'r sector ymhellach nac yn gosod baich ychwanegol o ran cost ac adnoddau ar ddarparwyr".*

Nododd Blynyddoedd Cynnar Cymru y gallai costau a baich gweinyddol "*fod yn bwysau digroeso ac anamserol i'r sector"* gan gynghori " *nes bod mwy o eglurder, mae'n anodd dadlau o blaid neu yn erbyn cofrestr".*

O'r 29% a ymatebodd **na** i sefydlu cofrestr gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, roedd eu rhesymu yn cynnwys:

- Cyflogau isel o fewn y sector a goblygiadau cost ychwanegol;
- Mwy o rwystrau i recriwtio a chadw staff;
- Nad yw'n flaenoriaeth i'r sector;
- Bod angen trafodaeth bellach ar y cyfraddau ariannu presennol;
- Ni ddylid bod yn ystyried cynyddu'r llwyth gwaith gweinyddol ar y sector;
- Ni ellir mesur proffesiynoldeb trwy fod ar restr;
- Methu â gweld manteision;
- Mae trefniadau monitro eisoes ar waith drwy wiriadau cyflogwyr, Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd; m mha ffordd y byddai hyn yn wahanol?
- Mae angen mynd i'r afael â phryderon cyn gwneud unrhyw benderfyniad i gynnwys y sector gwaith chwarae tymhorol.

Gofynnodd **cwestiwn 6** i'r ymatebwyr ystyried pryd y dylid datblygu cofrestr.

| 6. Pe bai cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn cael ei datblygu, pryd ydych chi'n meddwl y dylai hyn ddigwydd? | Yn y tymor byr (datblygu'r gofrestr o fewn 2-3 blynedd) | Yn y tymor canolig (datblygu'r gofrestr o fewn 4-6 blynedd) | Yn y tymor hir (datblygu'r gofrestr o fewn 7-10 blynedd) | Dim o gwbl | Dwi ddim yn siŵr |
|---|---|---|---|---|---|
| | 72 **69%** | 37 **18%** | 15 **7%** | 49 **25%** | 26 **13%** |

Cafwyd cyfanswm o 199 o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Atebodd dros hanner (69%) yr ymatebwyr y dylid datblygu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae o fewn 2-3 blynedd (y tymor byr). Roedd llai na chwarter (18%) yn credu y dylid ei ddatblygu mewn 4-6 blynedd (y tymor canolig) ac ychydig (7%) oedd yn credu y dylid ei ddatblygu mewn 7-10 mlynedd (y tymor hir). Roedd chwarter (25%) yn teimlo na ddylid datblygu cofrestr o'r gweithlu o gwbl a doedd 13% ddim yn siŵr.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr egluro eu hateb hefyd. O'r 69% sy'n nodi y dylid datblygu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn y **tymor byr**, rhesymodd un ymatebydd y dylid blaenoriaethu hyn ac y dylai digwydd yn gynharach yn hytrach nag yn hwyrach. Fodd bynnag, rhybuddiodd rhai y dylid ystyried yr argyfwng costau byw presennol a phwysau ariannol a staffio, a galwodd Estyn am ystyried effaith materion fel cofrestru deuol ar y sector. Galwodd ymatebydd arall am ddatblygiad graddol lle mae staff o un math o leoliad yn cael eu hychwanegu i ddechrau fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ar raddfa lai.

Mynegodd y Mudiad Meithrin yr angen am ymgynghoriad pellach ar fanylion cofrestr o'r gweithlu os penderfynir y bydd un yn cael ei sefydlu. Roedd yr uchod ac ymatebydd arall hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd y cyfnod hwn yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo'r syniad o gofrestr o'r gweithlu hefyd.

O'r 18% a ymatebodd y dylid datblygu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn y **tymor canolig i'r tymor hir**, roedd y rhesymau'n cynnwys y byddai hynny yn:

- Darparu rhagor o amser ar gyfer trafodaethau a rhoi ystyriaeth bellach i'r gofrestr, ac i ymgysylltu;
- Rhoi amser i ddod dros effaith Covid-19;
- Cydnabod bregusrwydd y sector a'r problemau presennol ynghylch cynaliadwyedd a recriwtio a chadw staff;
- Rhoi amser i sicrhau bod y manteision yn amlwg;
- Caniatáu rhagor o amser ar gyfer gwaith datblygu a rhannu mwy o fanylion gan gynnwys syniad o natur bosibl y gofrestr;
- Rhoi amser ar gyfer cyflwyno'r gofrestr yn raddol gorfodol;
- Rhoi amser i asesu effaith cofrestr yn drwyadl, gan gynnwys yr effaith ariannol.

Teimlai Cyngor y Gweithlu Addysg fod datblygu dros y tymor canolig fyddai'n cydnabod orau faint o amser sydd ei angen i ddatblygu deddfwriaeth yn sail i gofrestr o'r gweithlu.

Roedd sylwadau'r rhai a oedd yn teimlo **na ddylid** datblygu cofrestr o'r gweithlu **o gwbl**, yn cynnwys y canlynol:

- Nid yw cofrestr o'r gweithlu yn flaenoriaeth i'r sector;
- Y goblygiadau ariannol a'r rhwystrau rhag ymuno â sector sydd eisoes yn ei chael hi'n anodd denu staff;
- Problemau mewn perthynas â chofrestru deuol a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd eisoes ar waith;
- Mae angen dangos tystiolaeth bod yr amgylchedd wedi newid yn sylweddol o ran gallu i gefnogi a chynnal darpariaeth mynediad agored tymhorol.

Doedd 26 o'r ymatebwyr (13%) **ddim yn siwr** pryd y dylid datblygu cofrestr o'r gweithlu. Roedd eu rhesymau'n cynnwys:

- Yr angen am fwy o fanylion er mwyn rhoi barn bendant;
- Amseriad y cynnig mewn perthynas â'r hinsawdd economaidd sydd ohoni;
- Pryderon y sector am recriwtio a chadw staff a chynaliadwyedd;
- Gallai fod yn faich ychwanegol ar leoliadau a staff;
- Ni theimlir ei fod yn flaenoriaeth i'r sector;
- Yr angen i sicrhau bod y sector yn cydsynio'n ddiamheuol.

Roedd **cwestiwn 7** yn gofyn i'r ymatebwyr am unrhyw sylwadau pellach ynghylch cofrestru'r gweithlu**.**

| |
|---|
| 7. A oes gennych unrhyw sylwadau eraill i'w gwneud ynglŷn â datblygu cofrestr ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae? |

Darparodd 100 o ymatebwyr sylwadau eraill yn y meysydd allweddol canlynol**,** gan gynnwys:

**Costau**

- Bydd costau cofrestru yn bryder i bawb sy'n cael eu heffeithio - mae'n rhaid i gofrestr fod yn fforddiadwy i staff ac i gostau gael eu cadw'n isel gan fod llawer o weithwyr yn y sector ar gyflog isel o'i gymharu â gweithwyr proffesiynol cofrestredig eraill;
- Dim ond ffi gofrestru untro y dylid ei chodi;
- Cynghorwyd y gallai cofrestru fod yn rhad ac am ddim i ddechrau gyda ffioedd yn cael eu cyflwyno'n raddol;
- Ni ddylai lleoliadau neu unigolion orfod talu;
- Gallai graddfa gostau posibl atal rhyw rhag ymgeisio am ddyrchafiad gan fod cyn lleied o wahaniaeth rhwng y cyflogau;
- Mae angen buddsoddiad ychwanegol a pharhaus gan Lywodraeth Cymru;
- Dylid dargyfeirio'r arian sydd ei angen i sefydlu cofrestr i gefnogi hyfforddi staff mewn Gwaith Chwarae, Diogelu, Cymorth Cyntaf ac ati.

**Cyflog**

- Dylai cyflogau godi i ddenu a chadw staff - dylai cyflogau gynyddu mewn ffordd gynaliadwy;
- Gellid cynyddu cyflogau yn y sector trwy gynnal adolygiad trylwyr o'r model cyllido a'r trefniadau ar gyfer cefnogi cyllid gofal plant, addysg gynnar, y Cynnig Gofal Plant a Dechrau'n Deg.

**Cofrestru deuol**

- Cydnabyddiaeth o'r goblygiadau cost lle gallai unigolion â gyrfaoedd portffolio fod angen cofrestru â sawl rheoleiddwr;
- Os yw person wedi'i gofrestru ag un rheoleiddiwr eisoes, ni ddylai fod angen cynnwys y person cofrestredig ar y gofrestr newydd.

**Manteision**

- Mae angen nodi, dangos a chyfleu n glir buddion a manteision cofrestr o'r gweithlu a pham fod ei hangen, e.e. mynediad at hyfforddiant/DPP/cymhellion fel cardiau disgownt;
- Mae angen esbonio'r manteision i'r rhai sydd eisoes wedi'u cofrestru ag AGC e.e. a fyddai'n darparu cyfleoedd i warchodwyr plant gefnogi myfyrwyr gofal plant?

**Mae angen rhagor o wybodaeth**

- Mae angen rhagor o fanylion am brosesau, meini prawf, gofynion a chostau e.e. a fyddai staff rhan-amser neu staff sy'n gweithio mewn cynlluniau gwyliau yn talu llai; gofynion o ran cymwysterau; cyfnod o ras i staff newydd; pwy fyddai'n gyfrifol am gadw'r cofnodion a'r angen am fwy o fanylion am y broses addasrwydd i ymarfer a'i goblygiadau;
- Cefnogaeth y gellid ei darparu ar gyfer DPP;
- Sut y bydd systemau yn ymgysylltu i liniaru'r gwaith o adrodd a chofnodi ac osgoi unrhyw ganlyniadau anfwriadol.

Yn ogystal, galwodd rhai hefyd am fynd i'r afael â'r pryderon yr oeddent wedi tynnu sylw atynt yn gyson yn eu hatebion cyn y gellid ystyried creu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae e.e. "bregusrwydd" y sector a phwysau ar staff.

Dywedodd Cymdeithas Chwarae Llandeilo Ferwallt na ddylai'r sectorau gofal plant a gwaith chwarae fod wedi cael eu cyfuno at ddibenion yr ymgynghoriad a roedd ynrhagweld canlyniadau anfwriadol pe bai cofrestr o'r gweithlu yn cael ei sefydlu lle gallai darpariaeth gwaith chwarae tymhorol cofrestredig ddewis dadgofrestru neu gau i osgoi cofrestru proffesiynol.

Roedd Gofal Cymdeithasol Cymru yn cydnabod y byddai angen gwneud rhagor o waith ar fanylion y cynllun pe bai cofrestr o'r gweithlu yn cael ei sefydlu, fodd bynnag, cynigiodd hefyd y byddai'n ddefnyddiol nodi rhai meysydd yn fanylach ar hyn o bryd i roi sicrwydd e.e. cyfnod o ras, ffioedd a'r broses addasrwydd i ymarfer. Roedd Cyngor y Gweithlu Addysg yn teimlo bod angen eglurder o ran lle mae ymarferwyr wedi'u lleoli yn y gweithlu ehangach e.e. maes addysg ynteu ofal cymdeithasol er mwyn penderfynu ar y rheoleiddiwr/rheoleiddwyr priodol.

Gofynnodd **cwestiwn 8** i'r ymatebwyr ystyried effaith datblygu cofrestr o'r gweithlu ar y Gymraeg.

| |
|---|
| 8: Beth, yn eich barn chi fyddai effeithiau tebygol y cynigion hyn ar y Gymraeg ? Mae gennym ddiddordeb penodol mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio’r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na’r Saesneg. |

Cafwyd 107 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Roedd y sylwadau’n cynnwys:

**Effaith gadarnhaol**

- Gallai cofrestr gynnwys gwybodaeth am sgiliau iaith Gymraeg a datblygiad ieithyddol y gweithlu gan ganiatáu gwell casglu data;
- Gallai helpu i gyrraedd targedau *Cymraeg 2050* llywodraeth Cymru: Strategaeth y Gymraeg a rhoi cyfle i gynyddu ymwybyddiaeth o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg;
- Gallai hefyd helpu i asesu lefel sgiliau iaith a nodi'r angen am gymorth/hyfforddiant pellach sydd ei angen;
- Gallai cofrestr helpu i fesur y cynnydd a hyrwyddo cynlluniau fel Camau a Croesi'r Bont;
- Gallai cofnod o sgiliau Cymraeg roi cyfleoedd efallai i dargedu adnoddau a/neu gymorth mewn ardaloedd lle nad yw sgiliau iaith y gweithlu'n bodloni anghenion ehangach y boblogaeth;
- Byddai'n galluogi rhieni i chwilio am ddarpariaeth gofal plant / gwaith chwarae Cymraeg ei iaith.

**Negyddol**

- Gallai cofrestr waethygu problemau recriwtio a chadw gweithwyr chwarae Cymraeg eu hiaith;

- Mae nodi staff sy'n siarad Cymraeg i ddatblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg eisoes yn broblem; pe bai'n rhaid i unigolion dalu i ymuno â chofrestr o'r gweithlu, gallai hynny gael effaith negyddol ar argaeledd ymarferwyr Cymraeg;
- Mae 35% o Glybiau Gofal Plant y Tu Allan i'r Ysgol cyfrwng Cymraeg heb eu cofrestru, gan gyflogi tua 166 o weithwyr chwarae, na fyddent yn cael eu cydnabod fel gweithwyr proffesiynol pe bai'r gofrestr ar gyfer y rhai sy'n gweithio i ddarpariaeth a gofrestrwyd ag AGC yn unig.

Gofynnodd **cwestiwn 9** i'r ymatebwyr ystyried a fyddai unrhyw newidiadau i'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn gwella effeithiau cadarnhaol ar y Gymraeg ac yn lliniaru unrhyw effeithiau negyddol.

| |
|---|
| 9: Yn eich barn chi, a ellid geirio neu newid y cynnig er mwyn:<br>– cael effeithiau cadarnhaol neu ragor o effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu<br>– liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? |

Cyfeiriodd llawer o'r ymatebwyr at eu hymateb o dan Ch8 neu ni wnaethant ymateb i'r cwestiwn hwn.  Cafwyd 46 o ymatebion.

Roedd y sylwadau'n cynnwys:

- Dylai cofrestr fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (mynediad cyfartal) a dylai gynnig cyfleoedd sy'n cefnogi i gyrraedd lefelau ieithyddol yn y Gymraeg a chan gynnwys cronfa ddata o gyrsiau yn y gofrestr;
- Byddai annog mwy o Gymraeg ochr yn ochr â'r Saesneg yn ddefnyddiol gan na fyddai'n cael ei defnyddio'n llai ffafriol oherwydd byddai'r plant a'r staff yn gallu deall, gan ganiatáu i'w gallu yn y Gymraeg dyfu dros amser;
- Methu â gweld unrhyw bethau negatif ynghylch defnyddio'r Gymraeg cyn belled â bod rhieni a gofalwyr yn hapus;
- Mae'r Gymraeg eisoes yn cael ei hyrwyddo'n dda yng Nghymru.

Roedd **cwestiwn 10** yn rhoi cyfle i ymatebwyr godi unrhyw faterion perthnasol.

| |
|---|
| 10: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os hoffech wneud sylwadau ar unrhyw faterion perthnasol na chawsant sylw penodol gennym, nodwch nhw yn y blwch isod: |

Cafwyd 28 o ymatebion i'r cwestiwn hwn.

Dim ond ychydig o faterion perthnasol a godwyd o dan y cwestiwn hwn nad oeddent eisoes wedi'u crybwyll mewn cwestiynau blaenorol, fel ffioedd, cynnwys lleoliadau heb eu cofrestru, heriau recriwtio a chadw, cofrestru deuol, hyrwyddo'r manteision a

chwestiynau am brosesau cofrestr o'r gweithlu. Fodd bynnag, roedd rhai ystyriaethau nad oeddent wedi'u cyflwyno o'r blaen, gan gynnwys:

- Dylai unrhyw gofrestr o'r gweithlu a ddatblygir gynnig cymorth ar gyfer dysgu sgiliau llythrennedd TG angenrheidiol;
- Dylid gwerthuso yn barhaus wrth sefydlu'r gofrestr os penderfynir bwrw ymlaen â'r syniad;
- Mae angen dull gweithredu pragmataidd a chymesur er mwyn sicrhau bod y sector yn llwyr gefnogi unrhyw newidiadau.

**Casgliad**

Bwriad yr ymgynghoriad hwn oedd ceisio barn ar yr egwyddor o gofrestr o'r gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, pwy ddylai gael eu cynnwys ar y gofrestr honno, a ***phe*** bai cofrestr o'r gweithlu yn cael ei sefydlu, pryd y dylai hyn ddigwydd.

Mae'n amlwg o'r ymatebion a gafwyd bod y cwestiwn a ddylid datblygu cofrestr o'r gweithlu ar gyfer gofal plant a gwaith chwarae yn un cymhleth. Hyd yn oed pan gefnogir cofrestr , mae'r gefnogaeth yn amodol, ac yn cynnwys pryderon a amlinellir.

Er bod bron i hanner yr holl ymatebwyr yn croesawu cofrestr o'r gweithlu *mewn egwyddor,* mae'r gefnogaeth yn ochelgar ac yn dibynnu ar sut y caiff cofrestr ei datblygu a beth fydd y costau i weithwyr.

Mewn llawer o achosion, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai angen eglurder ynghylch y pryderon niferus a godwyd cyn y gellid cyrraedd barn fwy pendant. Gallai hyn olygu newid yn y cyfrannau sy'n croesawu cofrestr gweithlu os, er enghraifft, y byddai baich y gost yn cwympo ar y rhai sy'n gweithio yn y sector.

Nodwyd statws cyflog isel/ costau byw fel rhwystrau sylweddol i sefydlu cofrestr o'r gweithlu ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae, serch bod ymatebwyr yn cydnabod bod ffioedd yn cael eu codi ar weithwyr proffesiynol eraill am gael eu cydnabod fel aelodau o'u proffesiwn.

Crybwyllwyd amseriad yr ymgynghoriad mewn llawer o'r ymatebion. Disgrifiwyd y sector fel un bregus, wan ac o dan bwysau aruthrol, gyda phroblemau cynaliadwyedd yn peri mwy o bryder. Teimlwyd y gallai hyn effeithio ar sut mae'r rhai sy'n gweithio yn y sector gofal plant a gwaith chwarae yn teimlo am gofrestr o'r gweithlu ar hyn o bryd.

Yn yr un modd, nid oedd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn rhoi barn bendant o ran pwy ddylai neu na ddylai fod o fewn cwmpas cofrestru proffesiynol. O ran y rhai y cynigiodd yr ymgynghoriad y dylid eu cynnwys, codwyd problemau a phryderon yn arbennig i'r rhai mewn rolau gwaith chwarae a gwarchodwyr plant sydd eisoes wedi'u cofrestru ag AGC.

O ran y rhai y gwnaethom awgrymu na ddylent fod o fewn cwmpas y gofrestr, roedd teimladau cryf ynghylch y cynnig i beidio â chynnwys nanis , y rhai sy'n gweithio

mewn lleoliadau heb eu cofrestru ac Unigolion Cyfrifol / Personau Cofrestredig, a hynny heb unrhyw ie neu na pendant ar draws yr holl ymatebion.

I grynhoi, mae'n amlwg o'r ymgynghoriad bod diffyg consensws ar hyn o bryd ynghylch datblygu cofrestr o'r gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yng Nghymru, gyda rhai pryderon sylweddol i'w gweld ledled y sector.

**Y camau nesaf**

O ystyried cymhlethdod y materion dan sylw a phryderon sylfaenol y sector, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y camau nesaf ynghylch datblygu cofrestr o'r gweithlu gofal plant a gwaith chwarae yn ofalus.

Bydd angen i unrhyw waith pellach ynghylch cofrestr o'r gweithlu ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae gynnwys ymchwilio i'r problemau a'r pryderon a godwyd, er mwyn penderfynu ar y ffordd fwyaf priodol ymlaen i'r sector neu rannau o'r sector.

Gan fod y cwestiwn o ffioedd i unigolion (waeth pa mor fach) mor ganolog i lawer o ymatebion, bydd angen ystyried costau sefydlu a chynnal cofrestr o'r gweithlu yn barhaus yn ofalus cyn y gellir gwneud unrhyw benderfyniad ar y camau nesaf.

Bydd angen gwneud y gwaith hwn cyn y gellir ystyried ymgynghoriad pellach ar fanylion arfaethedig cofrestr o'r gweithlu.

**Rhestr o'r ymatebwyr [1]**

Akshay Vaidya

Alison

Alison Wicks, Alison Wicks Childminding

Amy Ferguson, Fun Foundations Day Nursery

Andrea Sysum, Gwasanaeth Chwarae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen

Angela Samuel, Little Rascals Preschool

Bethan Kay, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

Bishopston Play Association

Arolygiaeth Gofal Cymru

Carly Barker

Catherine Whelan

Uned Gofal Plant, Cyngor Sir Ceredigion

Chris Hole Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Eglwysi ynghyd yng Nghymru

Clybiau Plant Cymru

Undeb Community

Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Tîm Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar

Cytun

Danielle

Deanna Friend Dechrau'n Deg

Dionne Meredith, Daisy Day Nursery/Camp Coconuts

Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant, Cyngor Abertawe

Y Blynyddoedd Cynnar Cymru

---

[1] Dylid nodi nad yw'r rhestr hon o ymatebwyr yn gynhwysfawr. Dim ond yr ymatebwyr na wnaethant ofyn i'w hymateb fod yn ddienw sydd wedi'u cynnwys.

Cyngor y Gweithlu Addysg

Estyn

Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Tîm Gofal Plant a Chwarae, Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyngor Sir y Fflint

Helen Greenwood, Ysgol Feithrin Pont-y-pŵl

Jackie James, Cylch Meithrin Trefeurig

Jane Hawkshaw, QT Consultancy

Jane Tariq, Gwasanaeth Chwarae Plant, Cyngor Dinas Caerdydd

Joanne Stephens, JoJo’s Childcare/Childminder

John Wright Turner, Sonic Out of School Club

Katie Llewellyn, Gwarchod Plant Llewod Bach

Keri

Kiddies World

Laura

Leah Phillips, Daisy Day Nursery

Leanne, darpariaeth cyn-ysgol Dechrau'n Deg

Lowri Gwyndaf Jones a Rachel Gwen Jones, Cyngor Gwynedd

Lynda

Matthew Jenkins

Melanie Morris, Dechrau'n Deg

Tîm Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful

Michael John Donovan, Abigail's Day Nurseries Ltd.

Y Mudiad Meithrin

Nathania Minard, Tîm Chwarae Conwy

Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd

Patricia Joyce Roberts, Clwb Plant Llandegfan

Chwarae Cymru

Y Gymdeithas Broffesiynol ar gyfer Gofal Plant a Blynyddoedd Cynnar (PACEY Cymru)

Rebecca Gibbs, Clwb Cymer Ofal

Tîm Gofal Plant Rhondda Cynon Taf

Sam Maitland-Price

Sarah Glover, Bonymaen Kids Play Initiative

Sarah Stedman, Gwarchodwr Plant Cofrestredig

Sharon

Sian Jones

Gofal Cymdeithasol Cymru.

Stacy Bishop, Little Einsteins Academy

Cyngor Bro Morgannwg Partneriaeth Datblygu a Gofal Plant Blynyddoedd Cynnar

Victoria John, Little Bear Childminding

Vicky

Zoe Powell, Cylch Meithrin Gwdihŵ Brynithel